**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2008**

**DIWYGIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG**

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I gyflwyno argymhellion mewn perthynas â diwygiadau i Reolau Sefydlog yr Awdurdod fel eu bod yn adlewyrchu'n gywir y newidiadau a wnaed i aelodaeth y Pwyllgor Safonau ynghyd â mân newidiadau eraill, sy'n ymwneud yn bennaf â diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth.

## Cefndir

**2.** Ym mis Mawrth 2007 penderfynodd yr Awdurdod gynyddu'r nifer o aelodau annibynnol sy'n gwasanaethu ar ei Bwyllgor Safonau o 3 i 4. Penodwyd y pedwerydd aelod annibynnol gan yr Awdurdod ar 17eg Mawrth 2008. O ganlyniad mae angen newid y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r penderfyniad hwn.

**3.** Wrth archwilio'r Rheolau Sefydlog, daeth yn amlwg fod nifer o ddiwygiadau eraill, yn bennaf rhai sy'n adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Awdurdod a mân ddiwygiadau eraill, angen eu gwneud.

## Gwybodaeth

**4.** Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r diwygiadau arfaethedig wedi eu rhestru mewn fformat tabl yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**5.** Cyflwynwyd y diwygiadau arfaethedig i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth 2008. Yn unol â rheol sefydlog 2(2) nodwyd y diwygiadau gyda'r drafodaeth a'r bleidlais arnynt yn cael eu gohirio tan y cyfarfod presennol.

**Argymhelliad**

**6.** Fod yr Awdurdod yn trafod y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a restrir yn yr atodiad sydd ynghlwm ac yn penderfynu pa un ai yw yn eu cymeradwyo.